| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 27 Mehefin 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Heaton a'r Cynghorydd German / Nicola Stubbins |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Ann Lloyd, Pennaeth y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd a Rhiain Morrlle, Pennaeth y Gwasanaethau Plant |
| **Awdur yr Adroddiad** | Liana Duffy, Rheolwr y Tîm Contractau a Chomisiynu, y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd |
| **Teitl** | Y Cyngor yn gweithredu fel Corff Arweiniol ar gyfer adnewyddu Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru. |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cyngor weithredu fel Corff Arweiniol ar gyfer adnewyddu Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfynu ynghylch y Cyngor yn gweithredu fel Corff Arweiniol (hynny yw, y Comisiynydd Arweiniol) ar ran y chwech o Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yng ngogledd Cymru wrth ymdrin â'r Gwahoddiad i Dendro ar gyfer adnewyddu Cytundeb Gofal Cartref Rhanbarthol Gogledd Cymru ("y Cytundeb").

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn rhoi cymeradwyaeth i Gyngor Sir Ddinbych weithredu fel y Corff Arweiniol / Comisiynydd Arweiniol wrth ymdrin â'r Gwahoddiad i Dendro ar gyfer adnewyddu'r Cytundeb ac yn rhoi cymeradwyaeth i Adran Gaffael y

Cyngor arwain yr ymarfer Gwahoddiad i Dendro er mwyn sicrhau y dilynir y gweithdrefnau cywir.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) a'r Ffurflen Gomisiynu (Atodiad 2), eu deall a'u hystyried wrth ddod i benderfyniad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r Cyngor eisoes wedi arwain yr ymarfer Gwahoddiad i Dendro electronig i sefydlu'r Cytundeb rhanbarthol cyfredol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cartref i oedolion ar ran y chwech o Awdurdodau Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Dechreuodd y Cytundeb ar 1 Ebrill 2018 ac fe ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025.

4.2. Mae Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru'n dymuno adnewyddu'r Cytundeb er mwyn galluogi'r Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i weithio â darparwyr allanol wrth ddal i ddatblygu'r amrywiaeth o wasanaethau gofal cartref a chefnogaeth ledled gogledd Cymru. Bydd hynny'n sicrhau bod y darparwyr hynny a benodir drwy'r Cytundeb yn gweithredu'n unol â'r amodau a thelerau a gytunir.

4.3. Bydd adnewyddu'r Cytundeb yn sicrhau bod yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac yn medru gweithio â'r darparwyr a benodir i ddatblygu gwasanaethau gofal cartref a chefnogaeth o'r radd flaenaf ledled y rhanbarth.

4.4. Bydd manyleb y Gwahoddiad i Dendro'n cynnwys amrywiaeth fwy helaeth o wasanaethau gofal cartref na'r hyn a ddarperir dan y Cytundeb cyfredol. Gwahoddir tendrau ar gyfer gwasanaethau gofal cartref 'Safonol', 'Cymhleth' ac 'Estynedig' a 'Gofal Seibiant' i blant a phobl ifanc, oedolion a'u teuluoedd / gofalwyr. Nid yw'r Cytundeb cyfredol ond yn cynnwys gwasanaethau 'Safonol' i oedolion.

4.5. Bydd Adrannau Caffael Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint ac Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yn darparu adnoddau i gefnogi'r Cyngor i gydymffurfio â'r gofynion wrth gynnal yr ymarfer Gwahoddiad i Dendro Bydd y

Tîm Cydweithio Rhanbarthol hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyhoeddi'r Gwahoddiad i Dendro. Ffurfiwyd gweithgor sy'n cynnwys yr holl Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Iechyd, y tîm rhanbarthol a swyddogion caffael corfforaethol i gynllunio a chytuno ar bob cam o'r gwaith.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Sir Ddinbych lewyrchus - bydd hybu datblygiad gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel yn annog pobl i ddilyn gyrfaoedd yn y sectorau gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd darparu cyfleoedd am waith a datblygiad personol hefyd yn fuddiol i recriwtio a chadw gweithwyr.

5.2. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar - bydd y Gwahoddiad i Dendro'n dod yn sgil y gwaith a wnaed dan y Cytundeb cyfredol i ddarparu gofal cartref a chefnogaeth o'r radd flaenaf i bobl ledled gogledd Cymru, gan ganolbwyntio ar fodloni anghenion gofal iechyd a gofal cymdeithasol pobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gofal a chefnogaeth yn sicrhau y cedwir golwg gyson ar iechyd pobl a chanfod unrhyw bryderon ynghylch iechyd a/neu lles mor fuan â phosib.

5.3. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu - bydd y Cytundeb yn hyrwyddo datblygiad personol staff drwy ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gael cynlluniau datblygu personol strwythuredig ar gyfer eu staff. Caiff y cynlluniau hynny eu monitro'n gyson i sicrhau eu bod yn effeithiol gydol cyfnod y Cytundeb.

5.4. Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well - drwy gyswllt rheolaidd â'r bobl sy'n derbyn y gwasanaethau, y darparwyr a'r partneriaid comisiynu bydd modd adnabod anghenion y rhai sy'n derbyn gofal a chefnogaeth a'u hatgyfeirio / cyfeirio at wasanaethau cefnogi eraill yn y gymuned.

5.5. Sir Ddinbych wyrddach - bydd y Cytundeb yn hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau a weithredir yn lleol i'r bobl sy'n eu derbyn mewn ffordd mor effeithlon â phosib. Felly, defnyddir cyn lleied o gludiant â phosib wrth i'r staff drefnu ymweliadau.

5.6. Sir Ddinbych decach, diogel a mwy cyfartal - darperir y gwasanaethau'n deg i bawb sy'n gymwys i'w derbyn. Asesir polisïau'r darpar ddarparwyr ar gyfer

cyflogaeth deg a chydraddoldeb wth gynnal y Gwahoddiad i Dendro a byddant hefyd yn cael eu monitro gydol cyfnod y Cytundeb.

5.7. Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - bydd yn rhaid i ddarpar ddarparwyr ddangos eu bod yn darparu gwasanaethau yn yr iaith y mae pobl yn ei dewis, yn unol â 'Mwy na Geiriau'. Bydd y Gwahoddiad i Dendro'n sôn yn benodol bod yn rhaid i ddarpar ddarparwyr ddangos dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant a threftadaeth pob un o'r ardaloedd yng ngogledd Cymru.

5.8. Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad - bydd y Cytundeb yn hyrwyddo datblygiad gwasanaethau sy'n hygyrch i'r bobl hynny y mae angen gofal arnynt, gan leihau'r angen i atgyfeirio pobl at ysbytai a/neu gartrefi gofal preswyl a hwyluso'r drefn o ryddhau pobl o ysbytai a / neu gartrefi gofal preswyl drwy ddarparu gofal a chefnogaeth o'r radd flaenaf yng nghartrefi pobl.

5.9. Bydd yr hyn a gynigir yn cyfrannu at sicrhau bod y Cyngor yn dod yn ddi-garbon ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030 drwy ddatblygu gwasanaethau a ddarperir yn y ffordd fwyaf cyfeillgar posib i'r hinsawdd, fel defnyddio llai o gludiant drwy gael staff i ddarparu gwasanaethau yn y cymunedau ble maent yn byw ac annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan a mathau eraill o gludiant lle bynnag y bo modd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y cyllidebau presennol yn dal i dalu costau pob partner comisiynu ar gyfer comisiynu gofal cartref a chefnogaeth.

6.2. Ariennir yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r Gwahoddiad i Dendro drwy gyfraniadau'r holl  bartneriaid i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les wrth ddechrau cynllunio'r Gwahoddiad i Dendro. Canlyniad yr Asesiad oedd tair seren a sgôr o 33 / 36, sy'n golygu ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar Nodau Lles Sir Ddinbych.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Rhannwyd gwybodaeth ynglŷn â'r prosiect a'r Gwahoddiad i Dendro â'r Aelodau Arweiniol. Mae'r Aelodau Arweiniol wedi cymeradwyo'r Ffurflen Gomisiynu a'i llofnodi (fel sy'n ofynnol dan Reolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor).

8.2. Mae ymgynghori â budd-ddeiliaid a darparwyr yn rhan annatod o Gynllun y Prosiect.

8.3. Bydd y partneriaid comisiynu'n cyfeirio at yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad (a gwblhawyd yn rhanbarthol ar sail ymgynghori helaeth â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid) wrth gynnal y Gwahoddiad i Dendro.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Cefnogir y dull o ymdrin â chomisiynu yn y maes hwn. Caiff y goblygiadau ariannol i Gyngor Sir Ddinbych eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio rhagolygon ynglŷn â'r gyllideb yn y dyfodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Cwblhawyd asesiad risg ar gyfer y prosiect llawn a chytunodd y partneriaid comisiynu ar gamau lliniaru.

10.2. Caiff y risg o dderbyn her i'r hysbysiad o dendrau aflwyddiannus ei lleihau drwy ddarparu ymatebion cynhwysfawr i'r holl gynigwyr aflwyddiannus.

10.3. Er mwyn cael effaith ar ddyfarnu'r Cytundeb, byddai'n rhaid gwneud her gyfreithiol ynghylch canlyniad y Gwahoddiad i Dendro. Arfarnir y cynigion a dderbynnir yn sgil y Gwahoddiad i Dendro yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor a chyhoeddir y dull arfarnu. Byddai unrhyw her gyfreithiol, felly, yn methu.

10.4. Mae'r holl bartneriaid comisiynu wedi cytuno i warantu'r ymarfer hwn a chyfrannu at gostau'r Cyngor pe byddai unrhyw her gyfreithiol yn deillio o'r ymarfer tendro.

10.5. Wrth gyflwyno’u tendrau gallai rhai darparwyr fanteisio ar y cyfle i godi eu prisiau, yn enwedig wrth i gostau’n cynyddu ar hyn o bryd. Rhoddir sylw manwl i werth am arian wrth arfarnu’r cynigion, fodd bynnag, a bydd y tîm Cyllid yn adolygu dadansoddiadau’r darparwyr o’u cyllidebau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae’n ofynnol dan Reolau Gweithdrefnau Contractau Cyngor Sir Ddinbych bod y Cabinet yn cymeradwyo contractau gwerth mwy na £2 filiwn.